YR ATODLEN

TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**11.** Brics glo Briteheat, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 30% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (hyd at tua 15% o'r cyfanswm pwysau), a rhwymwr triagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres ar tua 300°C;

(c) sy'n frics glo ar siâp clustog gyda hicyn ar ffurf llinell yn rhedeg yn hydredol o gwmpas y fricsen;

(d) sy'n pwyso 30 gram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 2% o'r cyfanswm pwysau.